

## Adolygiad Cyflym Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

### Effaith brechu ar drosglwyddiad SARS-CoV-2 (COVID-19): adolygiad cyflym

Diweddariad 02: Chwiliad hyd 15 Mawrth 2022

Rhif adroddiad – RR00054 (Mawrth 2022)

#### Manylion yr Adolygiad Cyflym

**Adolygiad wedi'i gynnal gan:** Technoleg Iechyd Cymru

**Tîm Adolygu:** Jessica Williams, Sasha Barrate, Lauren Elston, Katie McDermott, Tom Winfield, David Jarrom, Elise Hasler, Carron Potter

**Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC:** Mawrth 2022

**Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC:** Tachwedd 2022

#### Tîm WCEC:

Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Micaela Gal, Rebecca-Jane Law, Jane Greenwell a Ffion Coomber a gyfrannodd at ddrafftio Crynodeb o'r Prif Bwyntiau, adolygu a golygu.

#### Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

RR00054. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effaith brechu ar drosglwyddiad Sars-CoV-2 (COVID-19). Diweddariad Mawrth 2022.

**Ymwadiad:** Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

# Effaith brechu ar drosglwyddiad SARS-CoV-2 (COVID-19): adolygiad cyflym

Diweddariad 02: Chwiliad hyd 15 Mawrth 2022

Rhif adroddiad – RR00054 (Mawrth 2022)

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

### Beth ydy Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.

Mae yna gysylltiad agos rhwng yr adolygiad hwn ac Adolygiad Cyflym (RR) blaenorol y bu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) yn ei gynnal ac a gyhoeddwyd dan yr enw: Beth ydy risg trosglwyddo SARS-CoV-2 mewn poblogaethau sydd wedi'u brechu? Rhif adroddiad – RR00012 (Tachwedd 2021)

### Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae rhaglen frechu COVID-19 wedi llwyddo i leihau effaith clefyd COVID-19 difrifol ar nifer y rhai sy'n mynd i mewn i'r ysbyty, yn dod yn sâl ac yn marw. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd brechlynnau COVID-19 yn erbyn ei drosglwyddiad yn llai eglur, yn enwedig yn achos pobl â haint ysgafnach neu asymptomatig, neu mewn oes o amrywiolion newydd. Roeddem eisoes wedi cynnal RR â'r nod o archwilio'r dystiolaeth ynglŷn â risg trosglwyddo SARS-CoV-2 o bobl sydd wedi'u brechu i bobl sydd heb eu brechu neu wedi'u brechu (Rhif adroddiad – RR00012, Tachwedd 2021). Ar adeg yr adolygiad blaenorol hwn, roedd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn sefydlu adolygiad cyflym byw yn edrych ar effaith brechlyn COVID-19 ar drosglwyddiad SARS-CoV-2. Parhawyd â'r RR Byw hwn tan fis Ionawr 2022 pan gynhaliwyd y chwiliad diweddaru olaf (UKHSA, 2022).

Mae'r RR hwn yn cynrychioli diweddariad (chwiliad hyd 15 Mawrth 2022) o'r fersiwn olaf o RR byw UKHSA, ac yn rhoi sylw i'r cwestiynau arolygu a ganlyn:

- Ydy brechu yn erbyn COVID-19 yn effeithio ar drosglwyddiad SARS-CoV-2 i eraill, yn yr is-grŵp o bobl sy'n dal COVID-19 ar ôl cael brechlyn?
- Sut mae'r risg o drosglwyddo ymlaen yn amrywio yn ôl y math o frechlyn, cwblhad y cwrs brechu, parhad ar ôl brechu, lefelau trosglwyddo cymunedol sylfaenol ac amrywiolyn SARS-CoV-2 yn y person sydd wedi'i frechu?

### Darganfyddiadau Allweddol

#### *Graddau'r sylfaen dystiolaeth*

Nododd y diweddariad 17 o astudiaethau ychwanegol: Roedd 6 o'r astudiaethau'n adrodd ar drosglwyddo ac 11 o'r astudiaethau'n adrodd ar y llwyth feirysol. Nodwyd hefyd un hap-dreial wedi'i reoli ychwanegol a oedd dal yn mynd rhagddo (yr amcangyfrif yw y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024).

### *Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

Roedd yr adolygiad diweddarau'n cynnwys tystiolaeth a gyhoeddwyd rhwng 12 Ionawr 2022 (y dyddiad y daeth y chwiliad diwethaf i ben) a 15 Mawrth 2022.

### *Prif ddarganfyddiadau*

- Ni wnaeth cynnwys 17 o astudiaethau ychwanegol yn y diweddariad hwn newid y prif gasgliadau o'r adolygiad blaenorol.
- Mae pobl sydd wedi cael y cwrs llawn o frechiadau a'r piggiadau atgyfnerthu (pobl heintus) yn trosglwyddo SARS-CoV-2 yn llai na phobl sydd heb eu brechu, yn enwedig yn achos amrywiolion cyn Delta ac amrywiolion Gwyllt. Mae'r gwahaniaeth hwn yn dod yn llai wrth i amser fynd heibio ers dos o'r brechlyn, yn enwedig yn achos amrywiolion Delta ac Omicron.
- Roedd astudiaethau a oedd yn edrych ar y llwyth feirysol yn dangos darganfyddiadau tebyg, gyda mwyafrif yr astudiaethau cyn Delta yn dangos bod gan y rheini oedd wedi cael y cwrs llawn o frechiadau werthoedd Ct mwy neu lwythi feirysol is na'r rheini oedd heb eu brechu, ond nid oedd mwyafrif yr astudiaethau Delta ac Omicron yn dangos unrhyw wahaniaeth clir mewn gwerthoedd Ct rhwng y rheini oedd wedi cael y cwrs llawn o frechiadau a'r rheini a oedd heb eu brechu.
- Darganfuwyd bod y risg o drosglwyddo'r amrywiolyn Omicron yn uwch o'i gymharu â'r amrywiolyn Delta, waeth beth oedd y statws o ran brechu.
- Nid oedd yna ddigon o dystiolaeth i weld a yw'r trosglwyddo'n amrywio yn ôl y math o frechlyn neu lefelau trosglwyddo cymunedol sylfaenol gwahanol.

### *Tystiolaeth o'r ansawdd gorau*

Ystyriwyd bod dwy astudiaeth a oedd yn adrodd ar drosglwyddo o ansawdd uchel (Andrejko et al. 2021, Lyngse et al. 2022a), a'r farn oedd bod tair astudiaeth a oedd yn adrodd ar y llwyth feirysol o ansawdd uchel (Lyngse et al. 2022a, Miguerees et al. 2022, Qassim et al. 2022).

### **Goblygiadau i Bolisi**

- Mae'r darganfyddiadau'n dangos mai ymhlith pobl sydd wedi cael piggiadau atgyfnerthu y mae'r gyfradd isaf o drosglwyddo amrywiolion Omicron a Delta, yna ymhlith pobl sydd wedi cael y cwrs llawn o frechiadau, ac mai ymhlith pobl sydd heb eu brechu y ceir y gyfradd uchaf o drosglwyddo.
- Lle bo astudiaethau wedi cymharu'r trosglwyddo rhwng gwahanol amrywiolion neu is-amrywiolion, mae'n ymddangos bod y trosglwyddo'n uwch yn achos Omicron na Delta, waeth beth fo'r statws o ran brechu.
- Roedd mwyafrif yr astudiaethau'n hynod amryfal, felly rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau.
- Byddai hap-dreialon wedi'u rheoli o frechu sy'n asesu'r trosglwyddo i bobl ar yr un aelwyd neu i gysylltiadau agos eraill yn helpu i ddeall gwir effeithiolrwydd brechu yn erbyn trosglwyddiad SARS-CoV-2. Fodd bynnag, byddai angen i'r rhain gymryd i ystyriaeth datblygiad parhaus amrywiolion newydd, a allai fod yn dipyn o her.

### **Cryfder y Dystiolaeth**

Mae'r dystiolaeth newydd yn cynnwys astudiaethau arsylwadol sydd, ar y cyfan, o ansawdd da i gymedrol. Fodd bynnag, ym mron pob astudiaeth, mae yna risg uchel bod ffactorau yn hytrach na brechu wedi effeithio ar y darganfyddiadau ac wedi tueddu'r canlyniadau i'r naill gyfeiriad neu'r llall. Roedd yr astudiaethau hefyd yn amrywio o ran dyluniad, nodweddion y cyfranogion a'r amrywiolion SARS-CoV-2 yr adroddwyd arnynt.

